# Rhan 3 — Y broses ddethol ar gyfer ynadon

## Cynnwys


Rhan 3 — Y broses ddethol ar gyfer ynadon .... 3
Egwyddorion arweiniol .... 3
Y Priodoleddau Allweddol .... 3
Ymgyrchoedd recriwtio .... 4
Swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol .... 4
Gwneud cais i ddod yn ynad .... 4
Gofynion cyn gwneud cais .... 5
**Ceisiadau i'r llys troseddol** .... 5
**Ceisiadau i'r Llys Teulu** .... 5
Derbyn a delio â cheisiadau .... 5
**Cyflwyno a chydnabod ceisiadau** .... 5
**Cadw cofnodion** .... 5
Cam 1: Gofynion cymhwysedd .... 6
**Gwirio ceisiadau am ffactorau sy'n arwain at anghymhwysedd awtomatig** .... 6
**Sgrinio ceisiadau** .... 6
**Ymgeiswyr blaenorol** .... 7
**Gwneud cais i fwy nag un Bwyllgor Ymgynghorol/awdurdodaeth ar yr un pryd** .... 7
Cam 2: Asesiad cymhwysedd .... 7
Cam 3: Geirdaon .... 7
**Cael geirdaon** .... 7
**Cyfyngiadau ar bwy all ddarparu geirda** .... 8
**Cyfrinachedd geirdaon** .... 8
Cam 4: Cyfweliad .... 8
**Cynnwys cyfweliadau** .... 8
**Asesu cyfweliadau** .... 9
**Trefniadau ymarferol** .... 9
**Ad-dalu treuliau i ymgeiswyr** .... 10
**Rôl Ysgrifenyddion mewn cyfweliadau** .... 10
**Panelau cyfweld** .... 10
**Arsylwi ar gyfweliadau** .... 12
**Ymgeiswyr ag anableddau** .... 12
**Dogfennau i brofi pwy ydych chi** .... 12

Cyfweliadau: prosesau ar ôl asesu........................................................................................13
Argymhelliad y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer penodi..............................................................13
Gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr.........................................................................................14
Y broses pan fo mwy o ymgeiswyr addas na swyddi gwag .......................................................14
Hysbysu ymgeiswyr am ganlyniad eu cais ..................................................................................14
Cliriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ....................................................................15
Adolygiad gan ymgeiswyr aflwyddiannus ....................................................................................16
Adolygiad o benderfyniad Pwyllgor Ymgynghorol (neu gworwm o Bwyllgor Ymgynghorol) .......16
Cais am adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol / Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol ..............17

**Mae Rhan 3 o'r Cyfarwyddiadau yn berthnasol i Bwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio yn unig**

# Rhan 3 — Y broses ddethol ar gyfer ynadon

## Egwyddorion arweiniol

3.1. Dylid dilyn yr egwyddorion canlynol wrth ymdrin â phob cais i'r ynadaeth:

- rhaid trin ceisiadau'n deg, yn gyson ac yn brydlon;
- rhaid asesu ymgeiswyr ar sail teilyngdod yn erbyn y pum priodoledd allweddol a'r gofynion a nodir yn y disgrifiad swydd[1]. Ni ddylid ystyried unrhyw ffactorau eraill.
- rhaid trin ymgeiswyr gyda chwrteisi a pharch;
- ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[2]; a
- rhaid cadw gwybodaeth a geir am unigolyn drwy'r broses ddethol yn gyfrinachol.

## Y Priodoleddau Allweddol

3.2. Rhaid i ynadon arddangos pob un o'r pum priodoledd allweddol a nodir isod:

- **Deall a gwerthfawrogi safbwyntiau gwahanol**
  Cydnabod a gwerthfawrogi safbwyntiau eraill. Delio ag eraill yn dosturiol a dangos dealltwriaeth ac empathi gwirioneddol tuag at eu sefyllfa. Meddu ar ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol a pharodrwydd i ddeall agweddau allweddol arnynt.
- **Cyfathrebu gyda sensitifrwydd a pharch**
  Gwrando'n daer ac yn astud, egluro barn a chyfathrebu'n hyderus ac yn sensitif o fewn ffiniau cyfrinachedd. Addasu arddull i gyd-fynd â'r sefyllfa a mynegi'n glir y rhesymeg dros benderfyniadau a wneir.
- **Gweithio ac ymgysylltu â phobl yn broffesiynol**
  Annog ymddiriedaeth a hyder, yn agos-atoch ac yn ddibynadwy. Gweithio mewn modd proffesiynol ac effeithlon gydag eraill ac yn annibynnol. Annog eraill i gymryd rhan ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Herio rhagfarn yn briodol ynddo'i hun ac eraill.
- **Gwneud penderfyniadau teg, diduedd a thryloyw**

---

[1] Mae'r disgrifiad swydd i'w weld ar-lein yn http://magistrates.judiciary.uk
[2] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

Yn bendant, yn gallu ffurfio barn resymegol sydd heb ragfarn, yn ddiduedd ac yn dryloyw drwy ddilyn dull strwythuredig wrth drafod. Gallu cymhathu symiau mawr o wybodaeth a nodi materion perthnasol.

- **Dangos hunan ymwybyddiaeth a bod yn agored i ddysgu**
  Yn agored ei feddwl ac yn gallu myfyrio a dysgu o safbwyntiau pobl eraill. Addasu'n gyflym i newidiadau ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu. Cynnal cymhwysedd a defnyddio strategaethau effeithiol i gynnal lles personol.

3.3. Bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr ddangos eu bod o gymeriad da a datgan eu bod yn gallu bodloni'r gofynion lleiaf o ran eistedd, ac nad oes unrhyw beth yn eu bywyd cyhoeddus na phreifat a allai danseilio enw da'r ynadaeth.

## Ymgyrchoedd recriwtio

3.4. Bydd cynllunio recriwtio barnwrol yn cael ei lywio gan fodel adnoddau cenedlaethol aml-flwyddyn. Bydd y model hwn yn rhagweld anghenion recriwtio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan ddefnyddio data llwyth gwaith a chapasiti barnwrol.

3.5. Rhennir yr anghenion recriwtio a ragwelir gyda'r Pwyllgorau Ymgynghorol, a gofynnir iddynt gadarnhau eu gallu i gefnogi'r lefelau recriwtio arfaethedig. Pan na chyflawnir y targedau recriwtio, darperir adborth i'r Grŵp Ategol Barnwrol i ystyried addasiadau i gynlluniau yn y dyfodol.

3.6. Ar ôl iddynt gael eu cytuno, rhennir y cynlluniau recriwtio ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol i gefnogi'r gwaith cynllunio a sicrhau adnoddau. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol gydweithio'n agos ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol i sicrhau bod y gweithgareddau'n alinio â'r gallu gweithredol, gan gynnwys cyfweld, hyfforddi a mentora.

3.7. Rhaid i bob deunydd hysbysebu a gwybodaeth i ymgeiswyr nodi'n glir:

- Ddyddiad dechrau'r ymgyrch;
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau; ac
- Amserlen arfaethedig ar gyfer cyfweliadau.

## Swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol

3.8. Pan fydd Pwyllgorau Ymgynghorol yng Nghymru yn recriwtio i swyddi lle mae'r 'gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol', rhaid iddynt ddilyn y canllawiau yn **Atodiad 3A.**

## Gwneud cais i ddod yn ynad

3.9. Dylid gwneud cais ar-lein yn https://magistrates.judiciary.uk/cymraeg/. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd copïau caled o ffurflenni cais ar gael.

3.10. Bydd copïau o ffurflenni cais ar gael mewn fformatau amgen ar gais. Dylid

hysbysu ymgeiswyr y gall hyn ohirio'r broses o ystyried eu cais.

3.11. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol ddefnyddio neu dderbyn fersiynau amgen o ffurflenni cais. Rhaid i Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol fewnbynnu'r wybodaeth sydd ar gopïau caled o ffurflenni cais i'r system recriwtio.

3.12. Mae yna wybodaeth am fod yn ynad, y broses ymgeisio a manylion llysoedd lleol ar gael yn https://magistrates.judiciary.uk/cymraeg/. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol gynhyrchu canllawiau amgen i ymgeiswyr nac anfon unrhyw wybodaeth sy'n anghyson â'r Cyfarwyddiadau hyn.

## Gofynion cyn gwneud cais

### Ceisiadau i'r llys troseddol

3.13. Rhaid i'r rhai hynny sy'n gwneud cais i'r llys troseddol ymweld â llys ynadon o leiaf ddwywaith o fewn y deuddeg mis cyn iddynt gyflwyno eu ffurflen gais i arsylwi achosion mewn sesiynau cyffredinol . Yn ystod yr ymweliadau hyn, dylai'r ymgeiswyr arsylwi ar ynadon yn unig, ac nid Barnwyr Rhanbarth.

3.14. Ni ddylai Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried ceisiadau i'r llys troseddol os nad yw'r ymgeiswyr wedi:

- ymweld â llys o leiaf ddwywaith o fewn y deuddeg mis cyn iddynt gyflwyno'r cais.

### Ceisiadau i'r Llys Teulu

3.15. Ni chaniateir i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i'r llys teulu arsylwi ar achosion yn y llys teulu, ond rhaid iddynt fod wedi ymchwilio i'r deunydd a gyfeirir ato yn y canllawiau i ymgeiswyr a geir yma: Family court magistrates - Magistrates Recruitment. Rhaid i'r ymchwil hon gynnwys gwylio'r fideos a darllen yr holl ddeunydd perthnasol a ddarperir.

3.16. Bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno eu hadlewyrchiadau personol ar eu hymchwil yn y ffurflen gais. Rhoddir yr wybodaeth hon i'r panel cyfweld cyn y cyfweliad, a gall pwyllgorau ymgynghorol ofyn i'r ymgeisydd ehangu ar ei adlewyrchiadau, gan ddefnyddio'r cwestiynau ategol a ddarperir yn y sgript gyfweld yn unig.

3.17. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried ceisiadau i'r llys teulu os nad yw'r ymgeiswyr wedi ymchwilio i'r deunydd digidol y cyfeirir ato yn y canllawiau i ymgeiswyr.

## Derbyn a delio â cheisiadau

### Cyflwyno a chydnabod ceisiadau

3.18. Rhaid cyflwyno pob cais ar-lein drwy'r system ddigidol. Anfonir cydnabyddiaeth drwy e-bost ar ôl i gais gael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Dylai ymgeiswyr wirio eu blwch e-bost sbam neu sbwriel cyn cysylltu â Phwyllgorau Ymgynghorol i ofyn am gadarnhad bod eu cais wedi cyrraedd.

### Cadw cofnodion

3.19. Bydd y system ddigidol yn cadw manylion pob cais am ddwy flynedd ar ôl dyddiad y penderfyniad i benodi ymgeisydd ai peidio, gan gynnwys unrhyw resymau dros beidio â pharhau â chais. Dilëir y manylion ar ôl y cyfnod hwn.

3.20. Cedwir manylion personol ynadon a benodir gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol cyhyd ag y byddant yn gweithredu fel ynad, a bydd y manylion yn cael eu dinistrio chwe blynedd ar ôl iddynt ymddiswyddo neu ymddeol.

## Cam 1: Gofynion cymhwysedd

**Gwirio ceisiadau am ffactorau sy'n arwain at anghymhwysedd awtomatig**

3.21. Bydd ceisiadau'n cael eu gwirio am anghymhwysedd o dan Ran 2 o'r Cyfarwyddiadau hyn gan system awtomataidd. O fewn deg diwrnod gwaith i gais gyrraedd, rhaid i Dimau Cymorth Gweinyddol Cyfreithiol adolygu unrhyw achosion a nodwyd, cadarnhau'r rheswm dros yr anghymhwysedd, a sicrhau bod hyn wedi'i gofnodi'n briodol.

3.22. Rhaid hysbysu ymgeiswyr sy'n anghymwys yn awtomatig am y rheswm hwn.

3.23. Rhaid cadw manylion ymgeiswyr a wrthodir ar sail anghymhwysedd awtomatig yn gwbl gyfrinachol.

**Sgrinio ceisiadau**

3.24. Rhaid i'r Ysgrifennydd adnabod unrhyw ymgeiswyr a allai fod yn anghymwys i'w penodi o dan Ran 2 o'r Cyfarwyddiadau hyn, nodi'r rhesymau dros yr anghymhwysedd, a chysylltu â'r ymgeisydd i gael rhagor o wybodaeth lle bo angen.

3.25. Rhaid i'r penderfyniad ynghylch a ddylid caniatáu i ymgeiswyr unigol barhau â'u cais gael ei wneud gan is-bwyllgor o dri aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol, wedi'u penodi gan y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd.

3.26. Rhaid i'r Ysgrifennydd ddarparu i'r is-bwyllgor wybodaeth anhysbys am yr ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd ganddynt. Dylai'r wybodaeth fod yn ffeithiol yn unig a gall gynnwys negeseuon e-bost neu ddyfyniadau uniongyrchol o drafodaethau rhwng ymgeiswyr ac Ysgrifenyddion.

3.27. Gall yr is-bwyllgor ofyn am ragor o wybodaeth gan yr Ysgrifennydd os na allant ddod i benderfyniad.

3.28. Rhaid gwneud y penderfyniadau hyn a'u hanfon at yr Ysgrifennydd o fewn deg diwrnod gwaith i'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau.

3.29. Rhaid i'r Ysgrifennydd gofnodi penderfyniad yr is-bwyllgor ar y system recriwtio ddigidol, a sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael gwybod a ganiateir iddynt barhau â'r cais.

3.30. Os oes amheuaeth, caiff Cadeiryddion neu Ysgrifenyddion Pwyllgorau

Ymgynghorol ofyn am gyngor gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

**Ymgeiswyr blaenorol**

3.31. Ni ddylai Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais o fewn y ddwy flynedd flaenorol (yn dechrau o ddyddiad eu cyfweliad) ac a wnaeth fethu ag arddangos y priodoleddau allweddol yn ystod y cyfweliad, oni bai bod rhesymau eithriadol dros wneud hynny.

**Gwneud cais i fwy nag un Pwyllgor Ymgynghorol/awdurdodaeth ar yr un pryd**

3.32. Dim ond i un ardal Bwyllgor Ymgynghorol, ac i un o'r ddau lys – teulu neu droseddol – y caiff ymgeisydd wneud cais ar yr un pryd. Mae hyn oherwydd y gofynion hyfforddi gwahanol ar gyfer y ddau fath o lys a'r ymrwymiad dilynol sydd ei angen gan ynadon sydd newydd eu penodi o ran mynychu hyfforddiant ac ymgyfarwyddo eu hunain â rôl ynad, yn ogystal â bodloni gofynion isafswm eisteddiadau.

## Cam 2: Asesiad cymhwysedd

3.33. Ar ôl cwblhau'r gwiriadau cymhwysedd, rhaid gwahodd pob ymgeisydd cymwys i gwblhau asesiad cymhwysedd ar-lein.

3.34. Bydd yr asesiad cymhwysedd yn pennu a yw ymgeiswyr yn dangos y pum priodoledd allweddol yn ddigonol i gael eu gwahodd i gyfweliad.

3.35. Bydd yr asesiad yn cynnwys 20 cwestiwn, pob un yn asesu un priodoledd unigol ac yn cael sylw cyfartal o ran marcio. Asesir pob un o'r pum priodoledd yn gyfartal ar draws yr asesiad.

3.36. Ni fydd yr asesiad wedi'i amseru, ond rhaid ei gwblhau o fewn **deng diwrnod calendr.**

3.37. Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y marc pasio yn symud ymlaen i'r cam cyfweliad.

3.38. Rhaid hysbysu'n ysgrifenedig ymgeiswyr nad ydynt wedi'u gwahodd i gyfweliad, eu cynghori nad yw adborth o'r asesiad cymhwysedd ar gael, a'u hysbysu eu bod yn rhydd i wneud cais eto pan fydd swyddi gwag ar gael yn y dyfodol.

3.39. I sicrhau tegwch a pharhad yn y broses ymgeisio, rhaid i ymgeiswyr aflwyddiannus aros o leiaf chwe mis o ddyddiad derbyn eu canlyniad cyn ail-ymgeisio.

## Cam 3: Geirdaon

**Cael geirdaon**

3.40. Rhaid cael dau eirda gan unigolion sydd wedi adnabod yr ymgeisydd am o leiaf dair blynedd, gan ddefnyddio'r ffurflen geirda safonol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y darperir copi caled o ffurflenni geirda. Pan fydd yr ymgeisydd mewn cyflogaeth, dylai un o'r geirdaon fod gan eu cyflogwr presennol (er enghraifft, eu rheolwr presennol). Nid oes rhaid bod y cyflogwr wedi adnabod yr ymgeisydd ers tair blynedd.

3.41. Rhaid hysbysu canolwyr o’r canllawiau sydd ar gael iddynt yn Atodiad 3B.

3.42. Caiff ymgeiswyr barhau drwy bob cam o’r broses recriwtio tra bo’r geirdaon yn cael eu sicrhau. Fodd bynnag, rhaid derbyn y ddau eirda cyflawn cyn y gellir argymell ymgeisydd yn ffurfiol ar gyfer penodiad. Rhaid i Ysgrifenyddion ddweud yn glir wrth y canolwyr beth yw’r dyddiad cau ar gyfer derbyn geirdaon.

3.43. Rhaid i Ysgrifenyddion wneud ymdrechion rhesymol a chymesur i fynd ar drywydd unrhyw eirdaon hwyr drwy ofyn i’r ymgeisydd gysylltu â’r canolwr.

3.44. Os bydd yr ymgeisydd yn nodi bod yr oedi oherwydd bod y canolwr i ffwrdd, dylid gofyn iddynt enwebu canolwr arall.

3.45. Ni chaiff Pwyllgorau Ymgynghorol barhau â chais oni bai bod pob geirda wedi cyrraedd. Rhaid hysbysu’r ymgeisydd o’r penderfyniad drwy e-bost a’i annog i wneud cais eto pan fydd swyddi gwag yn y dyfodol.

**Cyfyngiadau ar bwy all ddarparu geirda**

3.46. Ni ddylai canolwyr fod mewn perthynas agos neu deuluol â’r ymgeisydd.

3.47. Ni ddylai unrhyw un sy’n debygol o ymddangos gerbron y llys y gallai’r ymgeisydd gael ei benodi iddo ddarparu geirda.

3.48. Derbynnir geirda gan un ynad neu ddeiliad swydd farnwrol yn unig.

**Cyfrinachedd geirdaon**

3.49. Rhaid cadw geirdaon yn gwbl gyfrinachol.

3.50. Bydd Ysgrifenyddion yn adolygu’r geirdaon i adnabod unrhyw bryderon. Ni roddir y geirdaon yn uniongyrchol i’r panel cyfweld fel mater o drefn.

3.51. Os bydd yr Ysgrifennydd yn adnabod unrhyw bryderon yn y geirdaon a ddarparwyd, rhaid cynnwys y rhain yn yr adroddiad i’r is-bwyllgor sy’n ystyried materion eraill o gymhwysedd a chymeriad da. Bydd is-bwyllgor y Pwyllgor Ymgynghorol yn penderfynu a ddylid caniatáu i’r ymgeisydd fwrw ymlaen â’u cais ai peidio.

## Cam 4: Cyfweliad

3.52. Rhaid gwahodd ymgeiswyr sy’n cyrraedd neu’n rhagori ar y marc pasio yn yr asesiad cymhwysedd i gyfweliad.

**Cynnwys cyfweliadau**

3.53. Pwrpas y cyfweliad yw asesu i ba raddau y mae’r ymgeisydd yn dangos priodoleddau allweddol ynad, eu bod o gymeriad da ac yn gallu bodloni’r ymrwymiadau amser sy’n ofynnol ar gyfer rôl ynad.

3.54. Rhoddir set o gwestiynau a gynlluniwyd i brofi pob un o’r priodoleddau allweddol i Bwyllgorau Ymgynghorol. Rhaid i’r Pwyllgorau Ymgynghorol ddewis un

cwestiwn ymddygiadol ac un cwestiwn sefyllfaol ar gyfer pob priodoledd ym mhob ymgyrch recriwtio.

3.55. Darperir canllawiau i banelau cyfweld ar ofyn cwestiynau dilynol er mwyn sicrhau bod y cwestiynau'n deg ac yn wrthrychol ac i alluogi ymchwiliad priodol i'r atebion.

3.56. Profir y gofyniad am gymeriad da drwy gydol y cyfweliad.

3.57. Er mwyn pasio'r cyfweliad, rhaid i'r ymgeisydd gael sgôr o 3 neu uwch ym mhob un o'r pum priodoledd.

3.58. Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ragfarn anymwybodol, dim ond enw'r ymgeisydd a'i fyfyrdodau ymchwil wedi'u cyflwyno fydd panelau cyfweld yn ei gael cyn y cyfweliad.

3.59. Dylai panelau cyfweld gofio y bydd ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol gyda gwahanol raddau o brofiad o gyfweliadau.

3.60. Er dylai ymgeiswyr adael y cyfweliad yn teimlo eu bod wedi'u profi'n deg, dylent deimlo fel bod hyn wedi'i wneud gyda chwrteisi a phroffesiynoldeb.

**Asesu cyfweliadau**

3.61. Bydd perfformiad yr ymgeisydd yn cael ei fesur yn erbyn y priodoleddau allweddol. Darperir methodoleg sgorio safonol i'r panelau cyfweld.

3.62. Gall aelodau'r panel ysgrifennu eu nodiadau eu hunain yn ystod y cyfweliad, pan na fyddant yn siarad gyda'r ymgeisydd.

3.63. Dylai pob aelod o'r panel wneud nodyn o'u hasesiad eu hunain o bob priodoledd cyn i unrhyw un fynegi eu safbwyntiau am yr ymgeisydd. Yna, dylai cadeirydd y panel ofyn i bob aelod am eu safbwyntiau, cyn iddynt fynegi eu barn eu hunain.

3.64. Rhaid i gadeirydd y panel sicrhau bod ffurflen asesu derfynol yn cael ei llenwi a'i chyflwyno drwy'r system ar-lein, gan gofnodi asesiad ar y cyd y panel.

3.65. Mae'n hanfodol bod y ffurflen yn cynnwys tystiolaeth gadarn, dilys a dibynadwy, yn enwedig os gofynnir am adolygiad o benderfyniad y panel neu os caiff ei herio mewn rhyw ffordd arall. Argymhellir yn gryf defnyddio dyfyniadau uniongyrchol gan yr ymgeiswyr fel tystiolaeth o'r asesiad yn erbyn y priodoleddau allweddol.

3.66. Dylai panelau cyfweld gofio pan fyddant yn cytuno ar y dystiolaeth fod y sylwadau cryno a ddarperir gan y panel yn cael eu rhannu â'r ymgeisydd ar gais.

3.67. Rhaid dinistrio pob nodyn unigol ar ddiwedd y sesiwn gyfweld.

**Trefniadau ymarferol**

3.68. Caiff ymgeiswyr eu gwahodd i drefnu eu cyfweliad drwy'r system recriwtio ar-lein.

3.69. Disgwylir i'r cyfnod rhwng pasio'r asesiad sefyllfaoedd / cymhwysedd a chael

cynnig dyddiad cyfweliad fod, ar y mwyaf, ddau fis.

3.70. Bydd panelau cyfweld yn cael gwahoddiad awtomataidd i'r cyfweliad pan fydd ymgeisydd yn trefnu slot cyfweliad.

3.71. Fel rheol, dylai cyfweliadau bara tua awr a chwarter.

3.72. Cynhelir cyfweliadau fel arfer drwy Microsoft Teams.

3.73. Caiff ymgeiswyr ofyn am gyfweliad wyneb yn wyneb fel dewis arall, ac fe ddylai Pwyllgorau Ymgynghorol geisio hwyluso hynny.

3.74. Dylid cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb mewn adeilad cyhoeddus.

3.75. Rhaid cynnal pob cyfweliad mewn modd diogel a hygyrch i bob ymgeisydd, gan gynnwys y rhai ag anabledd.

3.76. Ni chaiff ymgeiswyr aflwyddiannus ofyn am adolygiad ar y sail bod y cyfweliad wedi'i gynnal drwy Microsoft Teams.

3.77. Caiff ymgeiswyr sy'n cael ail-gyfweliad yn dilyn adolygiad o benderfyniad blaenorol ofyn am gyfweliad wyneb yn wyneb.

**Ad-dalu treuliau i ymgeiswyr**

3.78. Ni fydd treuliau ar gyfer teithio i gyfweliadau wyneb yn wyneb, na threuliau eraill sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio, yn cael eu had-dalu oni bai bod amgylchiadau eithriadol, megis angen am addasiad rhesymol. Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno hawlio ad-daliad gysylltu ag Ysgrifennydd y Pwyllgor i drafod y gofynion cyn ymrwymo i unrhyw wariant.

3.79. Rhaid cael cymeradwyaeth briodol gan GLITEF ar gyfer unrhyw benderfyniad i ad-dalu costau i ymgeiswyr unigol.

3.80. Ar ôl y cyfweliad, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno prawf o wariant (er enghraifft, tocyn trên). Dylai GLITEF wedyn drefnu talu'r costau a ad-delir.

**Rôl Ysgrifenyddion mewn cyfweliadau**

3.81. Ni ddylai'r Ysgrifennydd eistedd ar gyfweliadau fel mater o drefn, er caiff arsylwi ar gyfweliadau drwy drefniant ymlaen llaw. Fodd bynnag, dylai fod Ysgrifennydd neu Ddirprwy enwebedig ar gael bob amser i gynghori panelau cyfweld ar unrhyw faterion gweinyddol neu bolisi sy'n ymwneud â'r broses ddethol.

3.82. Dylai'r Ysgrifennydd hefyd wirio ansawdd sampl o ffurflenni asesu wedi'u llenwi a thrafod unrhyw faterion neu bryderon gyda Chadeirydd y panel.

3.83. Os bydd ymgeisydd yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd yn cael e-bost a fydd yn cynnwys dolen awtomataidd i gwblhau a chyflwyno cais Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

**Panelau cyfweld**

3.84. Rhaid i aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol fod wedi mynychu'r hyfforddiant recriwtio perthnasol cyn cymryd rhan yn y broses ddethol.

3.85. Fel rheol, dylid cynnal cyfweliadau gan banel o dri aelod (gan gynnwys cadeirydd).

3.86. Gall cadeirydd y panel fod naill ai'n ynad neu'n aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol nad yw'n ynad.

3.87. Rhaid i bob panel gynnwys cynrychiolaeth o aelodau sy'n ynadon ac aelodau nad ydynt yn ynadon o'r Pwyllgor Ymgynghorol, ac mae statws cyfartal ganddynt.

3.88. Ar gyfer ceisiadau i'r llys teulu, rhaid i o leiaf un aelod o'r panel fod yn ynad teulu.

3.89. Ar gyfer ceisiadau i'r llys troseddol, dylai o leiaf un aelod o'r panel fod yn ynad sy'n eistedd yn y llys troseddol.

3.90. Os bydd Pwyllgor Ymgynghorol yn profi anhawster wrth sicrhau digon o gyfwelwyr, dylai geisio cymorth gan Bwyllgor Ymgynghorol Recriwtio arall. Yn ogystal, lle bo hynny'n briodol, caiff pwyllgorau wneud defnydd o'r gronfa genedlaethol ehangach o ynadon.

3.91. Os bydd aelod o'r panel yn tynnu'n ôl ar ddiwrnod y cyfweliad ac na ellir cael unrhyw un yn eu lle, rhaid gofyn i'r ymgeisydd a yw'n fodlon parhau â'r cyfweliad. Dylid cynnig dyddiad cyfweliad arall i ymgeiswyr nad ydynt yn fodlon gwneud hynny.

3.92. Er mwyn i banel o ddau barhau â'r cyfweliad, rhaid sicrhau bod un ohonynt yn ynad ac nad yw'r llall yn ynad, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol megis pan fydd aelod lleyg o'r panel cyfweld yn tynnu'n ôl o'r panel(au) o fewn 72 awr i'r cyfweliad ac nad oes aelod nad yw'n ynad arall ar gael o'r un Pwyllgor Ymgynghorol neu Bwyllgor Ymgynghorol arall.

3.93. Pan fydd panel o ddau yn parhau â'r broses gyfweld, ac mai panel o ynadon yn unig ydyw:

- Rhaid i'r ddau ynad fod â phrofiad o gyfweld ar gyfer yr ynadaeth a rhaid eu bod wedi cyfweld ymgeiswyr a oedd yn dymuno dod yn ynadon mewn ymgyrchoedd blaenorol;
- Dylai panelau gynnwys o leiaf un ynad o'r awdurdodaeth berthnasol, hynny yw, os yw'r cyfweliad ar gyfer y llys troseddol, rhaid i'r panel cyfweld gynnwys ynad yn y llys troseddol, ac os yw ar gyfer y llys teulu, rhaid cynnwys ynad yn y llys teulu;
- Rhaid cofnodi'r rheswm neu'r rhesymau dros absenoldeb aelod nad yw'n ynad ar y panel ar y ffurflen asesu cyfweliad; a
- Rhaid i Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol hysbysu

Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol fod panel cyfweliad o ynadon yn unig yn cynnal cyfweliadau. Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn cadw cofnod o'r holl gyfweliadau a gynhaliwyd gan banelau cyfweld ynadon yn unig a'r rhesymau drostynt.

3.94. Dylai panelau cyfweld fod mor amrywiol â phosibl. Er cydnabyddir bod Pwyllgorau Ymgynghorol yn ddibynnol ar argaeledd aelodau i gymryd rhan mewn cyfweliadau, dylai amrywiaeth fod yn ystyriaeth allweddol wrth ffurfio panelau.

**Arsylwi ar gyfweliadau**

3.95. Y unig unigolion a ganiateir i arsylwi ar gyfweliadau (drwy drefniant ymlaen llaw) yw:

- swyddog o Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol;
- unigolyn ag awdurdodiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol;
- Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol;
- Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol neu ddirprwy a enwebwyd;
- Aelod newydd o'r pwyllgor (cyfyngedig i un fesul cyfweliad); neu
- Swyddogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder neu GLITEF, at ddibenion gwella arferion recriwtio.

3.96. Rhaid hysbysu'r ymgeisydd cyn y cyfweliad os bydd arsyllwr yn bresennol, a gofyn iddynt gadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad. Os cyflwynir gwrthwynebiad, rhaid i'r arsyllwr dynnu'n ôl o'r cyfweliad.

**Ymgeiswyr ag anableddau**

3.97. Dylid gwneud addasiadau rhesymol i alluogi ymgeiswyr i fynychu cyfweliadau.

3.98. Ni ddylid gofyn cwestiynau i ymgeiswyr am eu hanabledd na sut y gallai effeithio ar eu gallu i wasanaethu fel ynad. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau am deithio i lysoedd/mynediad i adeiladau. Os bydd ymgeisydd yn ceisio trafod y pwnc hwn yn ystod eu cyfweliad, dylid dweud wrthynt y bydd hyn yn cael ei ystyried os a phan fyddant yn cael eu penodi, a'u sicrhau mai pwrpas y cyfweliad yw eu hasesu ar sail teilyngdod yn unig.

**Dogfennau i brofi pwy ydych chi**

3.99. Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno tair dogfen adnabod cyn y cyfweliad i gadarnhau pwy ydynt. Mae'n rhaid iddynt fod yn ddogfennau gwreiddiol a chynnwys un ddogfen adnabod â llun arni o Restr A ac un ddogfen o Restr B isod:

**Rhestr A**

- pasbort;

- trwydded yrru; neu
- cerdyn adnabod un o wledydd yr UE

**Rhestr B** (dyddiedig o fewn y ddau fis diwethaf)

- bil cyfleustodau; neu
- cyfriflen banc; neu
- gyfriflen cerdyn credyd (neu debyg).

3.100. Os nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw ddogfen adnabod â llun arni, dylent ofyn i unigolyn ddilysu llun ohonynt. Dylai'r unigolyn sy'n llofnodi'r llun fod naill ai'n unigolyn sy'n gweithio mewn proffesiwn "cydnabyddedig" neu fod yn unigolyn sydd wedi ymddeol o broffesiwn "cydnabyddedig". Gweler Confirm someone's identity online for a passport application - GOV.UK (www.gov.uk) am restr o broffesiynau "cydnabyddedig". Rhaid i'r llun fod wedi'i lofnodi a'i ddyddio dim mwy na thri mis cyn i'r cais gael ei gyflwyno.

3.101. Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu prawf o hunaniaeth i'r Ysgrifennydd cyn y cyfweliad, naill ai'n bersonol, drwy'r post neu drwy e-bost.

3.102. Rhaid i ymgeiswyr hefyd gyflwyno'r prawf hwn yn ystod y cyfweliad i'r panel cyfweld, naill ai drwy Microsoft Teams neu wyneb yn wyneb.

## Cyfweliadau: prosesau ar ôl asesu

### Argymhelliad y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer penodi

3.103. Rhaid i argymhellion ar gyfer penodi fod yn seiliedig ar sgôr asesiad cyfweliad yr ymgeisydd yn unig.

3.104. Defnyddir yr asesiad cymhwysedd yn unig i bennu pa ymgeiswyr a ddylai barhau i'r cam cyfweliad.

3.105. Rhaid delio ag unrhyw ymholiadau ynghylch gwybodaeth a ddatgelwyd gan ymgeiswyr fel rhan o'r broses ymgeisio mewn perthynas ag euogfarnau blaenorol, methdaliad neu bryderon eraill ynghylch cymhwysedd cyn y cyfweliad. Fel rheol, ni ddylai'r wybodaeth hon ffurfio rhan o'r broses o benderfynu a ddylid argymell yr ymgeisydd ar gyfer penodi, ac felly ni chaiff ei darparu i'r Pwyllgor Ymgynghorol fel mater o drefn.

3.106. Rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol llawn, neu gworwm o'r Pwyllgor Ymgynghorol, benderfynu pa ymgeiswyr i'w hargymell o fewn pymtheg diwrnod gwaith i ddiwedd rhaglen gyfweliadau. Ni ddylai cworwm gynnwys yn unig y rhai a wnaeth gyfweld yr ymgeiswyr dan ystyriaeth, er mwyn galluogi her annibynnol

gan aelodau eraill y Pwyllgor Ymgynghorol.

3.107. Caiff y broses argymell ei chynnal naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir drwy gyfrwng ffôn neu ddulliau digidol.

3.108. Rhaid darparu i'r Pwyllgor Ymgynghorol, neu'r cworwm ohono, drwy ddull diogel, sgorau asesu'r ymgeiswyr, a byddant yn gwneud y penderfyniad terfynol ar bwy i'w hargymell ar sail teilyngdod yn unig.

**Gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr**

3.109. Pan fydd aelod o'r Pwyllgor yn awgrymu nad yw'n briodol parhau â chais ar sail gwybodaeth bersonol am ymgeisydd, dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol neu'r cworwm drafod y mater. Rhaid i unrhyw benderfyniad i beidio ag ystyried cais ymgeisydd ymhellach fod yn benderfyniad gan y Pwyllgor llawn neu'r cworwm.

3.110. Ni ddylai aelodau panel cyfweld gynnal eu hymchwil eu hunain i ymgeiswyr, er enghraifft drwy chwilio'r rhyngrwyd am eu henwau neu fanylion eraill amdanynt. Yn yr un modd, ni ddylid ymchwilio drwy unrhyw gyfrwng cyfryngau cymdeithasol arall, megis postio neges ar flog neu gyfrif "Twitter" yn gofyn am wybodaeth gefndir am ymgeisydd.

**Y broses pan fo mwy o ymgeiswyr addas na swyddi gwag**

3.111. Dylid argymell pob ymgeisydd llwyddiannus yn y cyfweliad ar gyfer penodi. Mewn amgylchiadau eithriadol lle byddai nifer y penodiadau'n rhagori ar y terfyn capasiti rhanbarthol (yn wahanol i'r targed recriwtio blynyddol), bydd Ysgrifennydd yr ardal honno'n gwneud y penderfyniad terfynol ar y penodiadau.

3.112. **Ni ddylai'r** ffaith y gallai ymgeisydd ofyn am addasiadau rhesymol gael ei hystyried wrth benderfynu a ddylid (neu beidio) ei argymell ar gyfer penodi.

3.113. Dylai'r Ysgrifennydd hefyd gymryd y camau canlynol:

- gwirio gyda GLITEF a fyddai'n ymarferol ac yn unol ag anghenion busnes sefydledig i benodi pob un o'r ymgeiswyr llwyddiannus; a
- gwirio a all ardaloedd cyfagos gynnig penodiadau, lle bo hynny'n briodol.

**Hysbysu ymgeiswyr am ganlyniad eu cais**

3.114. Rhaid i Ysgrifenyddion gofnodi canlyniadau'r ceisiadau a hysbysu'r ymgeiswyr drwy e-bost o fewn **pum diwrnod gwaith** i benderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol.

3.115. Rhaid i negeseuon e-bost at ymgeiswyr aflwyddiannus nodi nad yw'r ymgeisydd yn cael ei argymell ar gyfer penodi, a ph'un ai oherwydd na wnaeth gyrraedd y safon ofynnol neu oherwydd bod ymgeiswyr eraill wedi sgorio'n uwch.

3.116. Caiff ymgeiswyr ofyn am adborth pellach ar eu cyfweliad, a bydd yr Ysgrifennydd

yn darparu hwnnw ar sail y ffurflen asesu gan y panel cyfweld.

## Cliriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

3.117. Rhaid i ymgeiswyr a argymhellir ar gyfer eu penodi fel ynadon gael cliriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

3.118. Os bydd ymgeisydd yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd yn cael e-bost a fydd yn cynnwys dolen awtomataidd i gwblhau a chyflwyno cais Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

3.119. Rhaid bod gan bob Pwyllgor o leiaf dau gyd-lofnodwr DBS ar gyfer y Corff Cofrestredig Penodiadau Ynadon “Cangen Ynadon o Adran yr Arglwydd Ganghellor”. Os yw pwyllgor angen cofrestru cyd-lofnodwr newydd, yna dylai gysylltu ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol, a fydd yn darparu’r ffurflen gais briodol.

| **Adran X o Ffurflen Gais DBS —** | **Gwybodaeth i’w mewnbynnu gan Gyd-lofnodwr y Pwyllgor Ymgynghorol neu aelod staff y Pwyllgor** |
|---|---|
| Swydd y gwneir cais amdani | **ARALL; YNAD** |
| Enw’r Sefydliad | **ADNODDAU DYNOL YNADON** |
| Lefel y gwiriad diogelwch sydd ei angen | **LEFEL UWCH** |
| A oes gennych hawl i wybod a yw’r ymgeisydd wedi’i wahardd rhag gweithio gyda phlant? | Rhowch groes yn y blwch **‘na’** |
| A oes gennych hawl i wybod a yw’r ymgeisydd wedi’i wahardd rhag gweithio gydag oedolion? | Rhowch groes yn y blwch **‘na’** |
| A yw’r rôl hon yn golygu gweithio gyda phlant neu oedolion yng nghartref yr ymgeisydd? | Rhowch groes yn y blwch **‘na’** |
| Math o gais | Rhowch groes yn y blwch **‘deiliad swydd newydd’** |
| A yw hwn yn gais am wirfoddolwr di-dâl? | Rhowch groes yn y blwch **‘ydy’**<br><br>Sylwch: Bydd methu â gwneud hynny’n arwain at gosb ariannol gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |

3.120. Os oes angen arweiniad pellach, mae’r DBS yn cyhoeddi canllawiau defnyddiol ar-lein, gan gynnwys i ymgeiswyr. Mae’r wybodaeth hon ar gael ar y wefan

ganlynol: www.gov.uk/disclosure-barring-service-check

3.121. Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol ganiatáu o leiaf **deg diwrnod gwaith** ar gyfer cwblhau gwiriadau DBS.

3.122. Ni fydd cyd-lofnodwyr DBS Pwyllgorau Ymgynghorol yn cael copïau o dystysgrifau cofnodion datgelu gan y DBS. Unwaith y bydd ymgeiswyr wedi cael tystysgrif DBS, rhaid iddynt roi'r copi gwreiddiol neu gopi wedi'i sganio i'r Ysgrifennydd.

## Adolygiad gan ymgeiswyr aflwyddiannus

### Adolygiad o benderfyniad Pwyllgor Ymgynghorol (neu gworwm o Bwyllgor Ymgynghorol)

3.123. Mae gan ymgeiswyr na chafodd eu hargymell ar gyfer eu penodi yn dilyn cyfweliad gan nad oeddent yn bodloni'r safon ofynnol hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os yw'r canlynol yn berthnasol:

- ni ddilynwyd y broses ddethol yn iawn; neu
- mi wnaeth aelod o'r panel cyfweld ymddwyn yn amhriodol.

Rhaid i'r ymgeisydd nodi sut y cawsant eu rhoi dan anfantais ar y naill neu'r llall o'r seiliau uchod er mwyn i'w hapêl gael ei hystyried. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod wedi gofyn am adborth a'i ystyried cyn gofyn am adolygiad o ganlyniad eu cais.

3.124. Dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r broses adolygu hon a dylid rhoi terfyn amser o **bymtheg diwrnod gwaith** iddynt o'r dyddiad y cafwyd adborth i gyflwyno eu cais am adolygiad a rhaid iddo gynnwys manylion eu rhesymau dros ofyn am adolygiad. Ni ddylid derbyn ceisiadau am adolygiad ar ôl y dyddiad cau oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Rhaid cyflwyno pob cais drwy'r system recriwtio ddigidol.

3.125. Nid oes gan ymgeiswyr hawl i ofyn am adolygiad o ganlyniadau'r asesiad cymhwysedd pan maent wedi'u gwrthod ar sail cymhwysedd, neu hawl i ofyn am adolygiad pan maent wedi cyrraedd y safon ofynnol yn y cyfweliad, ond na chawsant eu hargymell i'w penodi oherwydd bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan ymgeiswyr eraill a wnaeth sgorio'n uwch. Dylai cyfathrebiadau ag ymgeiswyr o'r fath nodi'n glir bod penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol i beidio ag argymell yn derfynol.

3.126. Y Pwyllgor Ymgynghorol sy'n gyfrifol am adolygu penderfyniadau yn y lle cyntaf a dylai wneud hynny o fewn **ugain diwrnod gwaith** iddo gael cais am adolygiad.

3.127. Lle nad yw'n ymarferol i'r Pwyllgor Ymgynghorol llawn adolygu'r penderfyniad, dylid cynnull cworwm adolygu ar wahân o dri aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol i wneud hynny. Dylai'r tri aelod hyn fod yn gyfuniad o aelodau sy'n ynadon ac aelodau nad ydynt yn ynadon.

3.128. Lle bo hynny'n berthnasol, mae'n bwysig bod myfyrdodau aelodau'r panel a gymerodd ran yn y cyfweliad yn cael eu ceisio a'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu. Efallai y bydd angen y wybodaeth hon hefyd os caiff y mater ei gyfeirio wedyn at yr Uwch Farnwr Llywyddol i'w ystyried.

3.129. Gall y Pwyllgor Ymgynghorol neu'r cworwm adolygu benderfynu cadarnhau'r penderfyniad. Fel arall, gallant benderfynu y dylai'r ymgeisydd gael ei ail-gyfweld gan banel gwahanol.

3.130. Dylid hysbysu ymgeiswyr o fewn **pum diwrnod gwaith** o ganlyniad yr adolygiad a dylid rhoi rhesymau iddynt dros y penderfyniad a wnaed. Rhaid hefyd eu hysbysu, os nad ydynt yn derbyn y penderfyniad, y gallant ofyn am adolygiad pellach gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.

### Cais am adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol / Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol

3.131. Gall ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan Bwyllgor Ymgynghorol a chaiff ei ystyried gan naill ai'r Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Dim ond os oes tystiolaeth glir bod y broses ddethol wedi'i chamddehongli neu fod aelod o'r panel cyfweld wedi ymddwyn yn amhriodol y bydd yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn ystyried cadarnhau cais am adolygiad.

3.132. Os bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cael cais am adolygiad o'i benderfyniad, dylid ei anfon ymlaen, gyda'r holl bapurau perthnasol, i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o fewn **pum diwrnod gwaith.**

3.133. Y targed ar gyfer cwblhau adolygiad ar gyfer ymgeiswyr gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yw **35 diwrnod gwaith** ar ôl iddynt gael yr holl bapurau perthnasol. Fodd bynnag, gall oedi ddigwydd o bryd i'w gilydd oherwydd galwadau ar amser yr Uwch Farnwr Llywyddol.

3.134. Mae penderfyniad yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn derfynol.

3.135. Gall yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol benderfynu cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol / cworwm adolygu, neu gall benderfynu bod rhaid ail-gyfweld yr ymgeisydd. Dylai Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol hysbysu ymgeiswyr yn ysgrifenedig o ganlyniad eu hadolygiad **o fewn 10 diwrnod gwaith** i benderfyniad gael ei wneud gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Anfonir copi o'r llythyr at Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

3.136. Os na fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol neu’r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol, bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn rhoi crynodeb i’r Ysgrifennydd o unrhyw resymau a roddwyd.